

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru: Presenoldeb a phrydlondeb yn yr ysgol

Ynglŷn â'r mater

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod plant a phobl ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Gall treulio amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth olygu eu bod yn colli gwersi pwysig, ac fe all hyd yn oed ddeng munud olygu'u bod yn colli'r rhagymadrodd i weithgaredd ac felly na fyddant yn gwybod beth i'w wneud. Gall presenoldeb gwael yn yr ysgol arwain yn aml at blant a phobl ifanc yn methu â manteisio ar gyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd.

Gall triwantaeth effeithio ar ddyfodol plentyn a pherson ifanc. Mae triwantaeth o bwys oherwydd:

- Nid yw plant a phobl ifanc sy'n colli'r ysgol yn gwneud cystal mewn profion, asesiadau ac arholiadau.
- Os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu gwersi, fe all y gwersi hyn a gollir yn yr ysgol gronni ac fe allant wirioneddol effeithio ar gyflawniad/gyrhaeddiad dros oes ysgol.
- Mae bod allan o'r ysgol yn ystod oriau ysgol yn golygu bod gan eich plentyn neu berson ifanc ddigon o gyfle i ladd amser - a dangosodd ymchwil y gall hyn arwain at ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol.
- Gall colli gwersi arwain at blant a phobl ifanc yn methu â datblygu'r sgiliau angenrheidiol y maent yn ddiweddarach yn dibynnu arnynt pan fyddant yn oedolion, megis dysgu llusosi mewn mathemateg.
- Mae plant a phobl ifanc yn colli cyfleoedd sy'n cynorthwyo'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Rôl a chyfrifoldeb gofalwr maeth

Disgrifir hysbysiadau cosb yng nghanllaw Llywodraeth Cymru fel opsiwn ychwanegol sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol i hyrwyddo gwell presenoldeb yn yr ysgol ac i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cyflawni'u cyfrifoldebau o ran addysg eu plentyn. Er nad ydynt yn gyfreithiol gyfrifol am y plentyn sy'n derbyn gofal, mae hysbysiadau cosb benodedig yn berthnasol i ofalwyr maeth fel rhieni/gofalwyr fel a ddiffinnir yn adran 576 Deddf Addysg 1996.

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-en.pdf>

Fel gofalwr maeth, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc rydych yn ei faethu yn mynychu ysgol yn rheolaidd, ac os nad ydynt yn mynychu, yna sicrhau y cânt y gefnogaeth y maent ei hangen. Os yw'r driwantaeth yn rheolaidd, fe ddylid cynnull cyfarfod yn ddi-oed rhwng y gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol a'r ysgol, ac o bosibl cynnwys y swyddog lles addysg, i drafod achosion posibl ac atal.

Y ffactor pwysig yn hyn yw bod yna dystiolaeth wedi'i dogfennu eich bod chi, fel gofalwr maeth, wedi ymdrechu'n wirioneddol i ddatrys y sefyllfa ac eich bod wedi ceisio gweithio'n gadarnhaol â

gweithwyr proffesiynol eraill. Mae triwantiaeth yn fwy tebygol o ddigwydd mewn ysgolion uwchradd, ond fe all hyd yn oed plant ifainc ffugio gwaeledd i osgoi mynd i'r ysgol.

Gall patrwm o golli ysgol ddatblygu am nifer o resymau, yn cynnwys gorbryder ynglŷn ag ymgartrefu, bwlio, straen ynghylch gwaith ysgol ac annedwyddwch ynglŷn â'r sefyllfa deuluol.

Yr hyn i'w wneud os yw plentyn neu berson ifanc yn colli ysgol

Mae yna amryw o bethau y gallwch eu gwneud i gynorthwyo plentyn neu berson ifanc sy'n treulio amser y tu allan i'r ysgol.

- Dowch i wybod am eu hwythnos yn yr ysgol a'r gwersi/athrawon y maent yn teimlo'n fwyaf cartrefol â nhw, a'r rheiny nad ydynt yn gartrefol â nhw.
- Chwiliwch am batrymau yn yr amseroedd y maent yn ceisio osgoi'r ysgol.
- A ydynt yn gwneud eu gwaith cartref? Gall methu terfyn amser beri i blentyn neu berson ifanc deimlo'n orbryderus, ac fe all hyn arwain at y dewis bwriadol i golli gwrs. Efallai'u bod yn osgoi athro neu bwnc neilltuol. Siaradwch â nhw'n rheolaidd a gofynnwch am wersi nad ydynt yn eu hoffi a pham nad ydynt yn eu hoffi. Gwnewch gynifer o gysylltiadau cadarnhaol â phosibl â'r ysgol, ac edrychwch ar drefn arferion ysgol eich plentyn maeth yn rheolaidd. Efallai nad ydynt yn gwneud eu gwaith cartref a bod arnynt eisiau osgoi cerydd? Neu'u bod yn swil mewn gwersi Ymarfer Corff?
- Gallai fod yna hefyd broblem ar y strydoedd neu ar y bws, sef bwlio, er enghraifft. Efallai y bydd arnynt angen newid llwybr, cael lifft, neu drefnu i gyfarfod â chyfeillion i deithio â nhw.

Os ydych yn canfod bod eich plentyn maeth wedi chwarae triwant, yna sicrhewch eich bod chi, a'ch plentyn, yn deall pam. Os yw plentyn yn orbryderus, yna efallai bod arno angen cymorth i ddadansoddi beth yw gwraidd y broblem; neu fel arall, fe all droi i fod yn 'popeth' ac 'rwy'n casáu'r ysgol'. Mae'n bwysig eich bod yn gweithio â'r ysgol i ganfod pa gymorth sydd ar gael. Efallai bod mentora'n bosibilrwydd, neu fod yr ysgol yn cynnal cynllun cyfeillio a allai wirioneddol helpu'ch plentyn maeth i ddatrys eu pryderon neu'u problemau. Bydd ysgol dda yn wirioneddol awyddus i roi sylw i broblemau ac i sicrhau bod pob myfyriwr yn mynychu'n rheolaidd ac yn gwneud cynnydd cyson.

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cefnogaeth ac adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth. thefosteringnetwork.org.uk

Cyhoeddiadau

Canllaw'r Rhwydwaith Maethu i Addysg yng Nghymru

Mae'r Rhwydwaith Maethu, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi lansio Canllaw Gofalwr Maeth i Addysg yng Nghymru. Bydd y canllaw rhad ac am ddim hwn yn helpu gofalwyr maeth i ddeall yn well sut mae'r gyfundrefn addysg yn gweithio yng Nghymru fel eu bod wedi'u cyfarparu'n well i gynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.

bit.ly/FCGEinWales

Gwneud Iddo Ddigwydd

Nod y cylchgrawn hwn yw ysbrydoli gofalwyr maeth i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u maethu yn eu gofal i godi'u huchelgais ac i wireddu'u potensial mewn addysg. Mae hefyd yn cynorthwyo gofalwyr maeth i ymgynghori, herio a chydweithredu ag ysgolion fel rhan annatod o'r tîm o amgylch y plentyn.

bit.ly/MakingItHappenWelsh

Disgwyliadau Mwy

Nod y cylchgrawn hwn yw helpu gofalwyr maeth i ddeall mwy am yr heriau sy'n wynebu plant sydd wedi'u maethu yn yr ysgol. Ond, yn bwysicach, fe rydd syniadau ymarferol i ofalwyr maeth am gamau i'w cymryd i helpu plant mewn gofal i anelu'n uwch ac i wireddu'u potensial.

bit.ly/GreaterExpectationsWelsh

Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn

sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltu â Ni

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet